



Corff Llais y Dinesydd

Sut y dylai'r GIG, Awdurdodau Lleol, a Chorff Llais y Dinesydd weithio gyda'i gilydd i wrando ar bobl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Dogfen Ymgynghori: Sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru. Cod Ymarfer Drafft ar Fynediad i Eiddo, Canllaw Statudol ar Gynrychioliadau a Chanllaw Drafft ar Newid Gwasanaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol'

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 41**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: llyw.cymru/corff-llais-y-dinesydd-canllawiau-ar-fynediad-sylwadau-newidiadau-i-wasanaethaur-gig

Ebost: gwybodaethclid@llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad.....	4
Cod Ymarfer ar Fynediad i Eiddo.....	7
Canllaw Statudol ar Gynrychioliadau.....	19
Canllaw diwygiedig ar newid gwasanaeth yn y GIG.....	27
Geiriau anodd.....	41

Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad iach.



Rydyn ni eisiau i bobl gael cyfle i gael llais mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



Mae hyn yn meddwl bod rhaid i bobl gael cyfle i gael llais am y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol. Am y gwaith maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw yn ei wneud.



Yn **Ebrill 2023** fe fydd y **Cynghorau Iechyd Cymuned** yn newid i **Corff Llais y Dinesydd**.



Fe fydd **Corff Llais y Dinesydd** yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cyfle i gael dweud eu dweud am y GIG ac awdurdodau lleol.

Rydyn ni eisiau i **Gorff Llais y Dinesydd**:



- Gwrando ar beth sydd gan bobl i'w ddweud am y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol.



- Cefnogi pobl gyda chynghor a help pan maen nhw eisiau gwneud cwyn.



- Defnyddio beth maen nhw wedi ei ddysgu i wneud y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol yn well.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ysgrifennu rhai dogfennau i helpu **Corff Llais y Dinesydd**, y GIG ac Awdurdodau Lleol i wneud gwaith da.


Y dogfennau yma ydy:



- Cod Ymarfer ar Fynediad i Eiddo
- Canllaw Statudol ar Gynrychioliadau
- Canllaw diwygiedig ar newid gwasanaeth yn y GIG



Mae'r ddogfen hawdd ei deall yma yn dweud rhagor wrthyich chi am y dogfennau newydd yma.



Ac mae dogfen arolwg ar wahân sydd yn gofyn cwestiynau am beth rydych chi'n feddwl am y dogfennau yma.



Darllenwch y dogfennau os gwelwch yn dda ac yna atebwch y cwestiynau yn y ddogfen arolwg.

Cod Ymarfer ar Fynediad i Eiddo



Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu **cod ymarfer** ar gyfer **Corff Llais y Dinesydd**, GIG ac awdurdodau lleol.

Mae **cod ymarfer** yn rhoi rheolau a chynghor am y gyfraith. Mae'n helpu Corff Llais y Dinesydd, cyrff GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i wneud beth mae'r gyfraith yn ddweud wrthyn nhw i'w wneud.



Fe fydd y **cod ymarfer** yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cyfle i gael dweud eu dweud.



Fe fydd hyn yn gwneud gwasanaethau yn well ac yn gywir i bobl.



Fe fydd yn helpu **Corff Llais y Dinesydd** i allu mynd i mewn i adeiladau GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i siarad gyda phobl.



Mae hefyd yn helpu **Corff Llais y Dinesydd** i siarad gyda phobl yn eu cartrefi eu hunain neu mewn adeiladu sydd yn cael eu rhedeg gan gyrff eraill ar ran y gwasanaethau cymdeithasol neu GIG.



Rhaid i **Gorff Llais y Dinesydd**, y GIG ac awdurdodau lleol ddilyn y **cod ymarfer**.



Ar gyfer pwy mae'r cod ymarfer?

Mae'r **cod ymarfer** ar gyfer

- Corff Llais y Dinesydd
- Y GIG
- Awdurdodau Lleol
- Cyrff eraill sydd yn darparu gwasanaethau i'r GIG neu Awdurdodau Lleol



Rhaid i'r cyrff yma ddilyn y **cod ymarfer**. Ac os nad ydyn nhw rhaid iddyn nhw ddweud pam.

Pryd mae'r cod yn berthnasol?



Mae'r **cod ymarfer** yn berthnasol pan mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gofyn i wasanaeth iechyd neu wasanaethau cymdeithasol os ydyn nhw'n gallu dod i'w hadeiladau i siarad gyda phobl.



Neu i le lle mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu.
Mae hyn yn gallu meddwl cartref gofal neu gartref y
person ei hun.



Fe ddylai **Corff Llais y Dinesydd** gael mynd i siarad
gyda phobl wyneb yn wyneb.

Syniadau Allweddol y Cod Ymarfer



Mae **Corff Llais y Dinesydd** yno i siarad gyda phobl
a gwrando ar beth mae pobl yn ei feddwl.



Mae hyn yn meddwl y dylai iechyd a gwasanaethau
cymdeithasol, GIG ac awdurdodau lleol ddweud
wrth bobl am **Gorff Llais y Dinesydd**.



Rhaid i bobl gael cyfle i siarad gyda **Chorff Llais y
Dinesydd**.



Ac fe ddylai cyrff adael i **Gorff Llais y Dinesydd** ddod i siarad gyda phobl wyneb yn wyneb pan maen nhw'n gofyn am hynny.



Rhaid i **Gorff Llais y Dinesydd** fod yn ymwybodol hefyd o pryd mae'n amser da i ofyn os ydyn nhw'n gallu dod.

Gofyn i wneud ymweliad

Os yw **Corff Llais y Dinesydd** am drefnu ymweliad i siarad â rhywun, dylai:



- Rhoi gwybod i'r darparydd gwasanaeth eu bod nhw eisiau ymweld. Mae hyn yn gallu meddwl rhoi'r amser a phwy fydd yn ymweld.



- Fe ddylen nhw roi rhybudd o'u hymweliad ar gyfer rhai lleoliadau. Ac efallai bydd hyn yn newid ar gyfer gwahanol leoliadau.



- Cytuno ar faint o bobl fydd yn ymweld. Os oes gormod o bobl mae hyn yn gallu bod yn broblem.



- Gwneud yn siŵr bod y bobl sydd yn ymweld wedi cael hyfforddiant cywir.



Os nad ydy cyfarfod yn gallu digwydd, yna fe ddylai **Corff Llais y Dinesydd** a'r darparydd gwasanaeth weithio gyda'i gilydd i ddarganfod ffordd wahanol o wrando ar bobl.



Os ydy gwasanaethau yn cael eu darparu yng nghartrefi pobl, yna fe ddylai **Corff Llais y Dinesydd** holi os ydy'r person yn hapus i **Gorff Llais y Dinesydd** ddod i'w gweld nhw.



Os oes rhywun mewn cartref preswyl yna fe ddylai **Corff Llais y Dinesydd** holi i weld os ydy'r person yn hapus i **Gorff Llais y Dinesydd** ddod i'w gweld nhw



Os oes angen i **Gorff Llais y Dinesydd** ymweld â phobl dan 18 oed fe ddylen nhw ofyn i'r person, neu'r rhiant a gofalwr os ydyn nhw'n hapus gyda hynny.



Mae pobl yn gallu dweud na os nad ydyn nhw eisiau siarad gyda **Chorff Llais y Dinesydd**.

Cytuno i Gorff Llais y Dinesydd wneud ymweliad



Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddilyn **cod ymarfer** os ydy **Corff Llais y Dinesydd** yn gofyn os ydyn nhw'n cael dod i'w gweld nhw.



Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth feddwl am **lesiant** pobl sydd yn defnyddio eu gwasanaethau.

Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.



Rydyn ni'n meddwl ei bod yn beth cywir bod pobl yn gallu siarad gyda **Chorff Llais y Dinesydd**.



Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth weithio gyda **Chorff Llais y Dinesydd** i ddarganfod y ffordd orau i bobl eu cyrraedd.



Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth a **Chorff Llais y Dinesydd** feddwl am hawliau pobl pan maen nhw'n trefnu cyfarfod.



Fe ddylai darparwyr gwasanaeth a **Chorff Llais y Dinesydd** feddwl am leoedd sydd yno i bobl gyfarfod. Er enghraifft, gofod preifat lle na fydd neb yn dod i mewn.

Os ydy'r cyfarfod yn cael ei gytuno:



Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gefnogi pobl i gyfarfod **Corff Llais y Dinesydd**.

Mae hyn yn gallu cael ei wneud drwy:



- dweud wrth bobl am yr ymweliad



- rhoi gwybodaeth i bobl am **Gorff Llais y Dinesydd**



- siarad gyda **Chorff Llais y Dinesydd** am wybodaeth bwysig am y cyfarfod (er enghraifft, os oes angen iddyn nhw wisgo unrhywbeth pwysig)



- cael rhywun i groesawu **Corff Llais y Dinesydd** a'u cyflwyno nhw i bobl



- gwneud yn siŵr bod anghenion pobl yn cael eu hateb pan maen nhw'n siarad gyda **Chorff Llais y Dinesydd**.



Efallai y bydd yn help i **Corff Llais y Dinesydd** wyllo a deall sut mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth.



Mae hyn yn meddwl y byddan nhw'n deall yn well beth mae pobl yn ddweud wrthyn nhw.



Fe ddylai **Corff Llais y Dinesydd** wneud yn siŵr bod gan y staff, aelod neu wirfoddolwr sydd yn gwneud yr ymweliad cyntaf brawf o pwy ydyn nhw (er enghraifft, cerdyn adnabod).



Rhaid i bobl sydd yn ymweld ar ran **Corff Llais y Dinesydd** ddweud wrth ddarparwyr gwasanaeth pan maen nhw'n cyrraedd.



Rhaid i bobl sydd yn ymweld ar ran **Corff Llais y Dinesydd** gael yr hyfforddiant cywir.



A'r lefel cywir o'r gwiriad DBS.



Rhaid i ymwelwyr **Corff Llais y Dinesydd** ddweud wrth y bobl maen nhw'n ymweld â nhw am beth maen nhw eisiau siarad.



Rhaid iddyn nhw gofio hawliau pobl bob amser pan maen nhw'n gwneud hyn.



A chael eu caniatad i siarad gyda nhw.



A rhaid i ymwelwyr a'r lleoliad drefnu pethau fel nad ydy ymweld yn dod ar draws rhoi gwasanaethau i bobl.

Os nad ydy'r cyfarfod yn cael ei gytuno:



Rhaid i **Gorff Llais y Dinesydd**, y GIG ac Awdurdodau Lleol ddilyn y **cod** bob amser.



Mae'r GIG a darparwyr gwasanaeth yn gallu dweud na i ymweliad **Corff Llais y Dinesydd**.



Ond dim ond os ydyn nhw'n dilyn y **cod ymarfer**.



Os ydyn nhw'n dweud **na**, yna mae'n rhaid iddyn nhw ddweud pam.



A rhoi syniadau am sut i drefnu'r ymweliad ar amser arall neu mewn ffordd arall.



Rhaid iddyn nhw wneud hyn cyn dyddiad y cyfarfod os ydyn nhw'n gwybod amdano o flaen llaw.

Os nad ydy'r cod yn cael ei ddilyn:



Os nad ydy'r GIG ac awdurdodau lleol yn dilyn y **cod ymarfer** efallai y byddan nhw'n gorfod mynd i'r llys.



Os ydy gwasanaeth yn stopio **Corff Llais y Dinesydd** rhag cyfarfod pobl mae hyn yn gallu effeithio ar eu **llesiant**.



Ac mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gallu dweud wrth yr Arolygwyr Gofal Iechyd a Gofal.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **Corff Llais y Dinesydd** hefyd yn gallu dweud wrth y Llywodraeth os nad ydy'r GIG ac awdurdodau lleol yn dilyn y **cod**.

Canllaw Statudol ar Gynrychioliadau



Oherwydd **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) Cymru 2020** mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gallu gwneud **cynrychioliadau**.



Mae **cynrychioliadau** yn meddwl siarad am neu ar ran pobl eraill. Mae hyn yn meddwl dweud wrth bobl beth maen nhw wedi ei ddarganfod wrth wrando ar bobl eraill.



Rydyn ni'n meddwl wrth wneud hyn fe fydd y GIG ac Awdurdodau Lleol yn gallu clywed beth sydd gan bobl i'w ddweud.



Ac fe fydd hyn yn gwneud gofal iechyd a gwasanaethau gofal yn well.



Rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol ddeall a dilyn y **canllaw statudol** yma.

Mae **statudol** yn meddwl ei fod yn gyfraith ac y dylid gwrando arno.



Rydyn ni eisiau i'r GIG ac awdurdodau lleol weithio yn agos gyda **Chorff Llais y Dinesydd**.



Rydyn ni'n meddwl y dylai pobl wybod bod eu barn yn cael eu clywed.



A bod y **cynrychioliadau** sydd yn cael eu gwneud gan **Gorff Llais y Dinesydd** yn gwneud gwahaniaeth.



I wneud hyn rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol ddweud wrth **Gorff Llais y Dinesydd** beth sydd wedi digwydd gyda'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu o'r **cynrychioliadau**.



Mae **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac ymgysylltu -Cymru) 2002** yn gwneud yn siŵr bod y GIG ac awdurdodau lleol yn gwrando ar **Gorff Llais y Dinesydd**.



A'u bod nhw yn defnyddio beth maen nhw'n ei ddysgu i wneud eu gwasanaethau yn well.



Mae hyn yn meddwl y bydd y pethau mae pobl yn ei ddweud wrth **Gorff Llais y Dinesydd** yn bwysig i wneud gwahaniaeth. Ac i wneud gwasanaethau yn well.

Beth mae'r canllaw yma yn gobeithio amdano



Rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol feddwl am sut fyddan nhw yn gwneud yn siŵr eu bod nhw yn:

- gwrando ar bobl drwy **Gorff Llais y Dinesydd**
- dweud wrth Gorff Llais y Dinesydd **sut fyddan nhw yn defnyddio** barn pobl i wneud pethau yn well
- dweud wrth **Gorff Llais y Dinesydd** sut mae barn pobl wedi gwneud gwahaniaeth.



Siarad ar ran pobl



Rhaid i **Gorff Llais y Dinesydd** wrando ar bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau.



Yna fe fyddan nhw yn dweud wrth y GIG ac awdurdodau lleol beth mae pobl yn ei ddweud am y gwasanaethau maen nhw yn eu derbyn.



Fe ddylen nhw weithio gyda'r GIG ac awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu clywed.



Mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gallu gwneud **cynrychioliadau** hefyd i'r GIG ac awdurdodau lleol am sut maen nhw'n cynllunio gwasanaethau a'r newidiadau maen nhw eisiau eu gwneud.



Ac fe ddylai'r GIG ac awdurdodau lleol wrando a meddwl am y **cynrychioliadau** wrth wneud penderfyniadau.



Mae **Corff Llais y Dinesydd** hefyd yn gallu gwneud **cynrychioliadau** am ydy gwasanaethau yn dda neu angen bod yn well.



Mae **Corff Llais y Dinesydd** hefyd yn gallu gwneud **cynrychioliadau** i'r GIG ac awdurdodau lleol am wasanaethau y mae cyrff eraill yn eu gwneud iddyn nhw.



Fe fydd **Corff Llais y Dinesydd** hefyd yn gyfrifol am wrando ar gwynion pobl.



Maen nhw'n gallu cefnogi unigolion i wneud cwynion pan mae'r gwasanaeth maen nhw wedi ei dderbyn ddim yn dda.

Beth mae angen i'r GIG ac awdurdodau lleol ei wneud



Rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol ddangos eu bod nhw wedi bod yn meddwl am **gynrychioliadau** wrth wneud newidiadau.



Mae angen iddyn nhw wneud yn siŵr:

- bod proses glir i edrych ar **gynrychioliadau** ac i gymryd camau sydd eu hangen



- bod nhw'n gwrando ac yn deall beth mae pobl wedi ei ddweud wrth **Gorff Llais y Dinesydd**



- meddwl os oes angen rhannu'r wybodaeth mae **Corff Llais y Dinesydd** wedi ei ddweud wrthyn nhw gyda chyrff eraill.



Mae angen i'r GIG ac awdurdodau lleol roi adborth i **Gorff Llais y Dinesydd**.



Fe ddylen nhw:

- dweud wrth **Gorff Llais y Dinesydd** pa mor hir fydd hi'n gymryd iddyn nhw ateb
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i **Gorff Llais y Dinesydd**
- ateb **Corff Llais y Dinesydd** yn fuan a phheidio gadael i bobl aros yn rhy hir.



Mae'n bwysig bod cofnodion yn cael eu cadw fel bod y GIG ac awdurdodau lleol yn gallu dysgu oddi wrthyn nhw.

Gweithio gyda'i gilydd



Mae'r Llywodraeth eisiau i'r GIG, awdurdodau lleol a **Chorff Llais y Dinesydd** weithio yn agos gyda'i gilydd fel bod gwasanaethau yn gallu cael eu gwneud yn well.



Weithiau efallai y bydd **Corff Llais y Dinesydd** eisiau gwneud **cynrychioliadau** i'r GIG ac awdurdodau lleol gyda'i gilydd.



Os ydy **cynrychiolaeth** yn cael ei wneud i'r GIG ac i'r awdurdodau lleol yna rhaid iddyn nhw benderfynu pwy fydd yn gyfrifol am ateb **Corff Llais y Dinesydd**.



Fe fydd y **canllaw statudol** yma yn cael ei edrych arno ac fe fydd newidiadau yn cael eu gwneud i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio.

Os nad ydy'r canllaw yn cael ei ddilyn:



Os nad ydy'r GIG ac awdurdodau lleol yn dilyn y **canllaw** efallai y byddan nhw'n gorfod mynd i'r llys.



Ac mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gallu dweud wrth yr Arolygwyr Gofal Iechyd a Gofal.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **Corff Llais y Dinesydd** hefyd yn gallu dweud wrth y Llywodraeth os nad ydy'r GIG ac awdurdodau lleol yn dilyn y **canllaw**.


Canllaw diwygiedig ar newid gwasanaeth yn y GIG



Mae'n bwysig bod gan bobl lais mewn sut mae newidiadau i wasanaethau GIG yn cael eu gwneud.



Pan mae newidiadau yn cael eu gwneud i wasanaethau GIG rhaid iddyn nhw feddwl am y cynllun **Cymru Iachach** ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae **Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006** yn dweud wrth Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG bod rhaid iddyn nhw ofyn i bobl am:



- Cynlluniau ar gyfer gwasanaethau mae'r GIG yn eu cynnig.
- Newidiadau i'r ffordd mae gwasanaethau yn cael eu darparu.
- Penderfyniadau sydd yn effeithio ar sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu.






Mae **Corff Llais y Dinesydd** yn dod yn lle **Cynghorau Iechyd Cymuned**.



Mae hyn yn meddwl bod rhaid i'r GIG feddwl am beth mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gallu ddweud wrthyn nhw pan maen nhw yn gwneud penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau.



Mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gallu dweud wrth y GIG beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn nhw am wasanaethau.



Rhaid i'r GIG newid rhai o'u gwasanaethau i fod yn well i bobl.



Ac fe ddylai hyn gael ei wneud yn deg ac yn y ffordd gorau.



Fe ddylai'r GIG weithio gyda **Chorff Llais y Dinesydd** i wneud yn siŵr bod y newidiadau yma y gorau i bobl.

Adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth



Fe ddylai'r GIG ddweud wrth bobl am **Gorff Llais y Dinesydd**.



Fe fydd rhoi cyfle i bobl siarad gyda **Chorff Llais y Dinesydd** yn helpu'r GIG i ddeall yn well beth mae pobl ei angen.



A helpu pobl i ddeall y GIG yn well.



Dim ond ar ôl iddyn nhw siarad gyda phobl y mae'r GIG yn gallu gwneud newidiadau.



Ac mae pobl wedi cael cyfle i ddweud beth maen nhw'n feddwl am y newidiadau.

Mae angen i'r GIG:



- gwrando ar bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau



- gweithio gyda phobl, cleifion a chyrff eraill i gynllunio newidiadau



- gweithio gyda **Chorff Llais y Dinesydd** a deall eu bod nhw'n gallu siarad ar ran pobl

- gwneud yn siŵr eu bod nhw yn gweithio mewn ffordd deg



- gwneud gwybodaeth yn **hygyrch**

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu darganfod a defnyddio rhywbeth.



Mae'r **Trydydd Sector** a chyrff gwirfoddol yn gallu bod yn dda iawn am siarad gyda phobl a deall pobl.

Y **trydydd sector** ydy enw arall am gyrff gwirfoddol, elusennol neu ymgyrchu.



Fe ddylai'r GIG gynnwys y cyrff yma yn eu cynlluniau.



Fe ddylai'r GIG a **Chorff Llais y Dinesydd** weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gweithio yn y ffordd gorau.

Meddwl am newidiadau



Mae newidiadau yn gallu bod yn fach neu yn fawr.



Os ydy'r GIG eisiau gwneud newidiadau mawr yna rhaid iddyn nhw siarad gyda llawer o bobl.



Rhaid i'r GIG gael cynllun, a rhaid i'w bwrdd gytuno ar y cynllun yma.



Fe ddylai'r cynllun ddweud beth maen nhw eisiau ei weld yn digwydd yn y dyfodol.



A sut fyddan nhw'n helpu'r cymunedau maen nhw'n gweithio gyda nhw.



Fe ddylair cynllun hefyd ddweud sut fyddan nhw yn rheoli'r newidiadau maen nhw eisiau eu gwneud.



Os ydy'r GIG yn gweithio gyda chyrff eraill, fe ddylen nhw eu cynnwys wrth wneud eu cynlluniau a gweithio gyda nhw.



Fe ddylai'r cynlluniau ddweud pryd mae newidiadau yn gallu digwydd.



Mae angen i'r GIG a chyrff feddwl am y cymunedau maen nhw'n gweithio gyda nhw pan maen nhw'n gwneud y cynlluniau.



A gwneud yn siŵr eu bod nhw yn **gyfartal** a **hygyrch**. A gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu eu deall nhw.

Gyfartal ydy trin pobl yn deg a bod gan bawb yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl



Weithiau os ydy penderfyniad mawr yn cael ei wneud yna mae angen **ymgyngoriad**.

Ymgynghoriad ydy pan mae llawer o bobl yn cael eu gofyn beth maen nhw'n feddwl am rhywbeth. Mae hyn yn gallu bod mewn trafodaethau, arolygon neu mewn ffyrdd eraill.



Mae **Corff Llais y Dinesydd** hefyd yn gallu dweud wrth y GIG beth mae pobl yn feddwl.



Os ydy'r newid yn newid mawr yna fe ddylai rhagor o bobl wybod am y newidiadau a beth maen nhw'n feddwl amdany'n nhw.



I ddechrau fe ddylai'r GIG siarad gyda gwahanol bartneriaid, grwpiau a chyrff maen nhw'n gweithio gyda nhw. Er enghraifft, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Staff, a **Chorff Llais y Dinesydd**.



Fe fydd siarad gyda'r partneriaid yma yn helpu i benderfynu beth mae'r GIG angen ei ddarganfod gan bobl drwy **ymgyngoriad**.



A rhoi o leiaf 6 wythnos i bobl ddweud beth maen nhw'n feddwl.

Fe ddylai ymgynghoriadau:



- digwydd cyn i benderfyniadau gael eu gwneud



- rhoi digon o wybodaeth i bobl ddeall am beth maen nhw'n cael eu holi



- rhoi amser i bobl feddwl amdano a dweud beth maen nhw'n feddwl




- cael eu clywed.



Rhaid i'r GIG feddwl am lawer o bethau pan maen nhw'n cynllunio **ymgyngoriad**.



Wrth ofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl mae'n bwysig bod gan bobl yr holl wybodaeth maen nhw ei angen. Fel:



- Pam bod angen y newid



- Beth mae'r GIG eisiau ar gyfer y dyfodol



- Beth mae'r GIG yn gobeithio ei newid

- Pam bod y GIG yn meddwl ei fod yn syniad da, a rhoi prawf o hyn



- Ar bwy fydd y newid yn effeithio

- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn newid



Fe ddylai'r **ymgyngoriad** fod yn **hygyrch**.



Ac mewn ffordd mae pobl yn ei ddeall. Er enghraifft yn Gymraeg neu Hawdd ei Ddeall



Fe ddylai'r GIG siarad gyda phobl, staff, cyrff eraill tra maen nhw'n meddwl am wneud y newid.



Fe ddylen nhw hefyd siarad gydag ASau, grwpiau cleifion, elusennau a grwpiau eraill.



Pan mae'r **ymgyngoriad** wedi gorffen mae'r GIG yn gallu gwneud newidiadau os ydy pobl yn cytuno.



Fe ddylai'r GIG feddwl am pa mor dda mae'r **ymgyngoriad** wedi gweithio.

Os ydy newid yn un brys



Weithiau efallai bod angen i'r GIG wneud penderfyniad yn gyflym. A dydyn nhw ddim yn gallu aros i bobl ddweud wrthyn nhw beth maen nhw'n feddwl.



Dim ond os ydy diogelwch neu **lesiant** cleifion neu staff mewn perygl y dylai hyn ddigwydd.

I weithio yn y ffordd gorau:



- Rhaid i'r GIG geisio dweud wrth bobl am y cynlluniau i newid.



- Rhaid i'r GIG ddweud wrth **Gorff Llais y Dinesydd** am sut mae cleifion a gofalwyr wedi cael gwybod am hyn.



- A sut mae cynlluniau eraill wedi cael eu gwneud i ateb anghenion pobl.
- Fe ddylai'r GIG ddweud beth fyddan nhw'n wneud i roi'r gwasanaeth yn ôl neu ei wneud yn well.



Fe ddylai'r GIG feddwl am gynlluniau ar gyfer argyfyngau cyn iddyn nhw ddigwydd.



Ac fe ddylai'r cynlluniau argyfwng yma gael eu rhannu gyda chyrff a **Chorff Llais y Dinesydd**.

Os nad oes modd cytuno ar newid



Weithiau fydd pobl ddim yn cytuno gyda'r cynlluniau ar gyfer y newidiadau mae'r GIG yn eu gwneud.



Mae **Corff Llais y Dinesydd** yn gallu dweud wrth y Llywodraeth pan mae yna unrhyw broblemau.



Fe ddylai **Corff Llais y Dinesydd** ddweud wrth y Llywodraeth pam mae ganddyn nhw bryderon.



Fe fydd angen i'r GIG ddangos i'r Llywodraeth eu bod nhw wedi gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl.



Ac fe fydd y Llywodraeth yn gofyn i **Gorff Llais y Dinesydd** a'r GIG i feddwl sut i wneud y cynlluniau yn well.



Os nad ydy hyn yn gallu digwydd mae'r Llywodraeth yn gallu gofyn i'r GIG ofyn am help gan banel annibynnol.



Mae'r panel yn gallu dweud wrth y GIG a **Chorff Llais y Dinesydd** sut maen nhw'n gallu gwneud cytundeb.



Fe fydd y **canllaw statudol** yma yn cael ei edrych arno ac fe fydd newidiadau yn cael eu gwneud i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio.

Geiriau anodd

Cod Ymarfer

Mae Cod Ymarfer yn rhoi rheolau a chyingor am y gyfraith. Mae'n helpu Corff Llais y Dinesydd, cyrff GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i wneud beth mae'r gyfraith yn ddweud wrthyn nhw i'w wneud.

Cynrychioliadau

Yn meddwl siarad am neu ar ran pobl eraill. Mae hyn yn meddwl dweud wrth bobl beth maen nhw wedi ei ddarganfod o wrando ar eraill.

Gyfartal

Gyfartal ydy trin pobl yn deg a bod gan bawb yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn gallu darganfod a defnyddio rhywbeth.

Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n wneud.

Statudol

Mae statudol yn meddwl ei fod yn gyfraith ac y dylid gwrandao arno.

Trydydd Sector

Enw arall ydy'r trydydd sector ar gyrff gwirfoddol, elusennol ac ymgyrchu.

Ymgynghoriad

Ymgynghoriad ydy pan mae llawer o bobl yn cael eu holi beth maen nhw'n feddwl am rhywbeth. Mae hyn yn gallu bod mewn trafodaethau, arolygon neu ffyrdd eraill.

